

Briff Ymchwil

# Biliau Brys

**Awdur:** Alys Thomas

**Dyddiad:** Chwefror 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Chwefror 2018**
Rhif Papur: **18-007**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6305**
: **Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Biliau Brys

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Biliau Brys y Llywodraeth

## Beth yw Bil Brys?

Bil Brys yw Bil Llywodraeth y mae angen ei wneud yn Ddeddf yn gynt nag y mae proses ddeddfu arferol y Cynulliad yn ei ganiatáu. Mae Rheol Sefydlog 26.95 yn datgan:

> *Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.*

## Craffu ar Fil Brys

Gan mai diben cyflwyno Bil Brys yw galluogi darpariaethau cyfreithiol brys i gael eu gweithredu'n gyflym, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn nodi fersiwn wedi'i symleiddio o brosesau deddfwriaethol arferol y Cynulliad, er mwyn osgoi unrhyw oedi. Nodir y broses hon isod:

- Cyn cyflwyno Bil Brys yn y Cynulliad, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol (y mae'n ofynnol iddo, yn yr achos hwn, fod yn aelod o Lywodraeth Cymru ) wneud cynnig yn gyntaf, yn unol â Rheol Sefydlog 26.95, yn gofyn i'r Bil gael ei drin fel Bril Brys gan y Cynulliad. Yn unol â Rheol Sefydlog 29.95A, rhaid gael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol i gyd-fynd â'r cynnig hwnnw, a rhaid iddo egluro:
    - pam y dylid ymdrin â'r Bil fel Bil Brys; a
    - amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau eraill os na wneir hynny.
- Caiff y cynnig, o dan Reol Sefydlog 26.95, gynnig hefyd bod y Bil Brys o dan sylw'n cael ei gyflwyno heb Femorandwm Esboniadol, sy'n ofynnol fel arfer gyda Biliau'r Cynulliad nad ydynt yn rhai brys. Rhaid i'r Cynulliad gytuno ar y cynnig cyn bod modd bwrw ymlaen â Bil Brys.
- Pan gyflwynir Bil Brys yn y Cynulliad, rhaid cael datganiad i gyd-fynd ag ef gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano, yn datgan bod darpariaethau'r Bil o fewn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad ym marn yr Aelod. Os, ar yr adeg cyflwyno, bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi gosod Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, bydd y datganiad perthnasol ar gymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol o dan ddarpariaethau Rheol Sefydlog 26.6.
- Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar gynnig o dan Reol Sefydlog 26.95, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano gyflwyno cynnig gydag amserlen ar gyfer ystyried Cyfnodau 1 i 4 ar gyfer y Bil Brys, y gellir ymdrin â hwy mewn un diwrnod mewn wythnos pan fydd y Cynulliad yn eistedd. Mae hon yn wahanol i'r broses arferol ar gyfer pennu amserlen ar gyfer ystyried Bil nad yw'n Fil Brys, lle bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu ar hynny. Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r amserlen, ond rhaid rhoi rhesymau dros y newidiadau hynny.
- Mae'r modd y mae'r Cynulliad yn ystyried Bil Brys yn dilyn y broses ddeddfwriaethol pedwar cyfnod arferol yn fras, ond gyda rhai addasiadau sylweddol er mwyn ei chyflymu. Nodir y rhain isod:
    - Yng **Nghyfnod 1**, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Brys.  Nid oes opsiwn yn bod i gyfeirio'r Bil at Bwyllgor y Cynulliad er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol.

– **Rhaid i Gyfnod 2** Bil Brys gael ei ystyried gan bwyllgor o'r Cynulliad cyfan (yn hytrach na Phwyllgor y Cynulliad) a gaiff ei gadeirio gan y Llywydd. Nid oes angen bwlch o 15 diwrnod gwaith rhwng Cyfnod 1 a Chyfnod 2 wrth ystyried Bil Brys. Nid yw'r gofyniad y Rheol Sefydlog bod Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau Cyfnod 1 yn gymwys. Felly, gall trafodion Cyfnod 2 ddigwydd ar unwaith ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 1.

– Nid oes angen bwlch o 15 diwrnod gwaith rhwng Cyfnod 2 a Chyfnod 3 wrth ystyried Bil Brys. Nid yw'r gofyniad y Rheol Sefydlog bod Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau Cyfnod 2 yn gymwys. **Felly gall trafodion Cyfnod 3** ddigwydd ar unwaith ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2

– Ni ellir cael **cyfnod adrodd** wrth ystyried Bil Brys.

– Nid yw'r gofyniad arferol y dylai gwelliannau gael eu cyflwyno o leiaf bum niwrnod cyn y maent i gael eu hystyried yn berthnasol wrth ystyried Biliau Brys. Yn hytrach, caniateir i'r Llywydd benderfynu ar faint o rybudd y mae'n rhaid i Aelod Cynulliad ei roi os yw'n bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Brys.

– Nid oes yn rhaid i destun Bil Brys fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg er mwyn iddo gael ei basio gan y Cynulliad yng **Nghyfnod 4.**

## Biliau Brys yn y Cynulliad

Dim ond un Bil Brys sydd wedi bod hyd at fis Ionawr 2018. Pasiodd y Pedwerydd Cynulliad y

> ***Bil Sector Amaethyddol (Cymru),*** *a gyflwynwyd ar 8 Gorffennaf 2013. Cynhaliwyd dadl Cyfnod 1 ar 9 Gorffennaf a chynhaliwyd Cyfnod 2, a oedd yn cynnwys Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan, ar 16 Gorffennaf. Cynhaliwyd Cyfnodau 3 a 4 ar 17 Gorffennaf. Cyfeiriwyd y Bil at y Goruchaf Lys, a roddodd ddyfarniad ar 9 Gorffennaf 2014. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2014.*

Gall y Pwyllgor Busnes hefyd benderfynu opsiwn **"llwybr carlam"** ar gyfer Bil, sy'n golygu cytuno nad yw Bil yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor i graffu arno cyn y ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn. Mae dau Bil wedi dilyn y llwybr carlam yn y ffordd yma:

– Cyflwynwyd y **Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)** ar 14 Hydref 2013 a gwnaeth y Gweinidog ddatganiad deddfwriaethol ei fod wedi'i gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Hydref 2013. Roedd Cyfnod 4 ar 10 Rhagfyr a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Cafodd y Bil yr opsiwn llwybr carlam o ystyried y lefel craffu ar y bolisi sylfaenol a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

– **Cyflwynwyd Bil Cyllid (Cymru)** ar 30 Medi 2013. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio'r Bil arfaethedig at Bwyllgor er mwyn trafod yr egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar **8 Hydref 2013**. Cynhaliwyd trafodaeth Cyfnod 2 yn y Pwyllgor ar **7 Tachwedd 2013** a cynhaliwyd Cyfnodau 3 a 4 ar 3 Rhagfyr. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014.